

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
5/6/17

Presennol: Emyr Jones, (Cadeirydd), Tyly Roberts, (Is Gadeirydd), Eleri Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, Huw Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb.
2. Croesawyd aelod wedi ei enwebu i'r Cyngor, sef Huw Roberts a diolchwyd iddo am ei barodrwydd i dderbyn y swydd. Cytunwyd i anfon gair o ddiolch diffuant i John Morris, (Pant March, gynt) sydd wedi ymddeol o'r Cyngor ar ôl blynyddoedd hir o wasanaeth gwerthfawr i Gyngor Cymuned Llangywer.
3. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
4. Nid oedd datganiadau buddiant.
5. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mai 15 2017.
6. Derbyniwyd gwybodaeth am y cynllun mabwysiadu Ciosg BT a chytunwyd i bwrcasu diffib ar gyfer ardal Rhosygwaliau a Llangywer.
7. Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir. Roedd ganddo newyddion da am adleoli'r biniau ar gyfer Cwm y Glyn o dan glo yn y maes parcio trwy gytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri .

8. Materion ariannol:

Darllenwyd y Cyfrifon a ardystiwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar 2/6/17, a darllenwyd sylwadau'r Archwilydd Mewnol ar y Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2016-17. Cytunwyd gyda'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cymeradwywyd i sylw'r Archwilydd Allanol y Ffurflen Flynyddol ar gyfer Cyngor Cymuned Llangywer am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/17. Arwyddodd y Cadeirydd y dogfennau ar gyfer archwilwyr BDO.

Derbyniwyd gwybodaeth am y cam nesaf gan y Rheolydd Pensiynau.

Cytunwyd i dalu'r anfoneb am waith torri gwrych o gwmpas yn fynwent (2016 a 2017)

9. **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:** – Cytunodd Alan Jones Evans i ddilyn y materion isod:
 - a. Mae angen torri gwair yng nghefn gwlad wrth bob cyffordd, ac yn arbennig wrth Tŷ'n Gwrych, er diogelwch ar y ffordd.
 - b. Mae cerrig wedi dod yn rhydd yn y wal o dan Fryntirion ac mae perygl i'r wal ddymchwel i'r ffordd

- c. Mae pryderon fod trwydded cerddoriaeth a bar yr ŵyl Awyr Agored wedi eu hymestyn heb ystyried gwrthwynebiadau lleol.

10. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr; prif bwnc trafod ar hyn o bryd ydyw gweinyddu toiledau'r Bala.

11. **Gohebiaeth:**

Parc Cenedlaethol Eryri: Cymeradwywyd cais NP5/70/50E sef cais ôl weithredol i newid defnydd llety rheolwr i lety ychwanegol - Canolfan Addysg Awyr Agored, Rhosygwaliau

Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd rhaglen waith y mis sy'n gynnwys arwisgo ffordd Cwmhirnant.

Un Llais Cymru: Derbyniwyd Agenda cyfarfod Pwyllgor Ardal 21/6/17 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau pryd y trafodir atal troseddau yng nghefn gwlad Meirionnydd.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 3/7/17 yn Neuadd Bentref Llangywer am 8.30pm